


# POLISI IECHYD A DIOGELWCH DYSGU CYMRAEG NANT GWRTHEYRN (2025)

## YN UNOL A DEDDF IECHYD A DIOGELWCH 1974

nant gwrtheyrn

**CYNNWYS**


1. CYFRIFOLDEBAU YN NANT GWRTHEYRN
2. TÂN
3. CYMORTH CYNTAF
4. SALWCH, GWAELEDD AC ANGHENION ARBENNIG
5. DIOGELWCH AR Y SAFLE

## 1. CYFRIFOLDEBAU YN NANT GWRTHEYRN

1. **Siwan Tomos, Prif Weithredwr** sydd â chyfrifoldeb am holl agweddau Iechyd a Diogelwch yn Nant Gwrtheyrn.

2. Mae'r canlynol â chyfrifoldeb am ddiogelwch mewn mannau penodol:

| | |
|---|---|
| **Llinos Pritchard**<br>llety@nantgwrtheyrn.org | Swyddfa / Safle |
| **Shan Banfield**<br>arlwyo@nantgwrtheyrn.org | Arlwyo |
| **Lester Hughes**<br>lester.hughes@nantgwrtheyrn.org | Cynnal a Chadw |
| **Mared Grug Llywelyn**<br>mared@nantgwrtheyrn.org | Gweithgareddau addysgol |

1. **TÂN**

Y ffordd orau i ymladd tân yw sicrhau nad oes tân yn digwydd. I'r perwyl hwn:

- Ni chaniateir ysmygu ar y safle oni bai mewn ardaloedd sydd wedi eu dynodi ag arwyddion.
- Bydd sbwriel yn cael ei glirio yn rheolaidd a bydd y biniau sbwriel ac ailgylchu (yn enwedig biniau â llawer o bapur) hefyd yn cael eu clirio'n rheolaidd.
- Bydd pob dihangfa dân yn cael eu cadw'n glir.
- Profir y larymau tân yn wythnosol, fel arfer ar brynhawniau Mercher pan na fydd myfyrwyr ar y safle. Nodir yn y Cyfarfod Croeso os ydym yn bwriadu cynnal dril tân yn ystod yr wythnos dan sylw neu ddim.
- Bydd staff Nant Gwrtheyrn yn cynnal Ymarfer Tân yn flynyddol.

**Cyfuniad o sain larwm a chwiban yw'r larwm dân.**

Pan y clywir y larwm a / neu'r chwiban, dylid ymgynnull yn y Cae Canol, sydd wedi ei leoli rhwng Trem y Mynydd a Threm y Môr a bydd aelod o staff yn gwneud cofrestr er mwyn sicrhau bod pawb yn ddiogel.

Lleoliadau'r drysau tân:

- Caffi Meinir / Y Neuadd - Mae dau ddrws tân yn y gegin; un yn arwain allan trwy'r drws cefn i'r Maes Parcio a'r ail ddrws yn arwain i'r Ystafell Fwyta. Pan yn yr Ystafell Fwyta, gellir defnyddio'r drws sy'n mynd allan i gyfeiriad y môr, neu'r drws sy'n cael ei ddefnyddio fel y brif fynedfa.
- Y Plas - Mae dau ddrws tân yn y Plas; un drws yn arwain o'r ystafell ddosbarth lawr grisiau i'r lawnt sy'n wynebu'r môr ac un drws wrth ymyl y toiledau ar y llawr gwaelod.
- Y Capel – Gellir mynd allan drwy'r brif fynedfa neu drwy'r drysau gwydr ym mhen pellaf y Capel.
- Y 'Sgubor – Sicrheir fod pob drws yn y 'Sgubor yn agored tra fod myfyrwyr yn bresennol yno ond yn ogystal â hynny mae'r ddau ddrws sy'n wynebu ei gilydd yn ddrysau tân.
- Y Llety - Mae gan y tai ar Trem y Môr (y teras sy'n wynebu'r môr) ddau ddrws, y brif fynedfa i gyfeiriad Cae Canol a drws cefn ac maent yn ddrysau tân. Mae'r holl ddrysau blaen ar Trem y Mynydd yn ddrysau tân.

Diffoddyddion Tân

- Mae ffeil yn y dderbynfa yn nodi lleoliad yr holl ddiffoddyddion tân sydd ar y safle.

**RHIFAU FFÔN:**

| | |
|---|---|
| **Argyfwng** | **999** |
| **Prif Swyddfa** | **01758 750 334** |
| **Rheolwr Addysg a Threftadaeth** | **07923492461** |

## 2. CYMORTH CYNTAF

Mae Nant Gwrtheyrn wedi'i ymrwymo i ddarparu pobl gymwys gyda'r cymwysterau priodol yn unol a gofynion Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981, a chod ymarfer cydnabyddedig.

Pe digwydd damwain, bydd manylion y ddamwain ynghyd ag unrhyw dystiolaeth yn cael eu cofnodi.

Mae offer Cymorth Cyntaf wedi eu lleoli yn:

Y Swyddfa / Derbynfa

Y Capel (Mae diffibriliwr wedi ei osod ar wal allanol y Capel)

Y Plas

Y Caffi

**RHIFAU FFÔN:**

| | |
|---|---|
| **Argyfwng** | **999** |
| **Ysbyty Gwynedd** | **01248 384384** |

**NODWCH, OS GWELWCH YN DDA, EIN BOD WEDI EIN LLEOLI MEWN ARDAL SYDD Â SIGNAL FFÔN GWAN. DEFNYDDIWCH 'WI-FI CALLING' AR EICH FFONAU SYMUDOL NEU EWCH I'R DDERBYNFA ER MWYN DEFNYDDIO'R LLINELL FFÔN.**

3. **SALWCH, GWAELEDD AC ANGHENION ARBENNIG**

Os ydych yn profi salwch neu waeledd ar y safle yn ystod eich ymweliad, rhowch wybod i aelod staff ar unwaith.

Disgwyliwn i'n holl ymwelwyr, gan gynnwys myfyrwyr ar gyrsiau preswyl, gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau iechyd cyhoeddus a fydd mewn grym yn ystod eu hymweliad.

Os oes unrhyw anghenion arbennig gan fyfyriwr, dylid rhoi gwybod i staff Adran Addysg Nant Gwrtheyrn cyn cyrraedd y safle. Gall hyn gynnwys anghenion yn ymwneud â hygyrchedd, anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion dietegol.

Prif gyswllt: Mared Grug Llywelyn, Rheolwr Addysg – mared@nantgwrtheyrn.org

Mae ffeil 'Manylion Mewn Argyfwng' wedi ei lleoli yn y brif swyddfa Addysg. Mae'r ffeil hon yn cynnwys rhestr o bawb sydd ar gwrs yr wythnos dan sylw, ym mha ystafell maen nhw'n aros, manylion eu car os oedd ganddyn nhw un ar y safle yn ogystal â'u cyswllt mewn argyfwng ac unrhyw anghenion sydd ganddynt.

## 4. DIOGELWCH AR Y SAFLE

Dylai pob myfyriwr sydd ar gwrs lenwi ffurflen 'Manylion Mewn Argyfwng' yn ystod y Cyfarfod Croeso, gan sicrhau bod y daflen yn cael ei chasglu gan aelod o staff priodol ar ddiwedd y cyfarfod.

**Mae'r Nant yn lleoliad gwledig a diarffordd, felly dylid cymryd pwyll wrth gerdded o amgylch y safle, gan gadw'n glir o unrhyw fannau sydd wedi eu nodi fel rhai peryg. Dylid gwisgo dillad ac esgidiau addas ar gyfer ymweld â safle gwledig. Gall y safle fod yn dywyll y ystod y nos ac er fod golau o amgylch y safle dylid cymryd gofal a defnyddio fflach lamp ble mae hynny'n bosib.**

Dylai pob myfyriwr sydd ar gwrs preswyl roi gwybod i fyfyriwr arall, i'r tiwtor neu i aelod o staff yr Adran Addysg os ydynt yn mynd oddi ar dir y safle yn ystod eu cyfnod yma – yn arbennig felly os am grwydro'r llwybrau cyfagos.

Os oes myfyriwr yn penderfynu ohonynt eu hunain eu bod am fynd i nofio yn ystod eu cyfnod ar gwrs, cynghorir y myfyriwr i fynd â rhywun gyda nhw ac i fod yn ofalus. Tynnir eu sylw at y ffaith fod y môr yn mynd yn ddwfn yn gyflym yma a fod y Nant hefyd yn hen safle diwydiannol ac felly gall gwrthrychau peryglus fod yn y dŵr.

Rhoddir gwybod i bob myfyriwr yn y Cyfarfod Croeso am y diffyg signal ffôn a'u cynghori i gysylltu gyda'r cyswllt Wi-Fi. Rhoddir gwybod hefyd fod ffôn *landline* y gellir ei defnyddio yn y dderbynfa. Rhoddir gwybod am leoliadau'r diffibriliwr a'r blychau cymorth cyntaf yn ogystal â'r trefniadau isod mewn argyfwng:

**MEWN ARGYFWNG AR Y SAFLE**

09:00 – 17:00: Rhoi gwybod i aelod o staff drwy ddod i'r Dderbynfa

17:00 – 22:00: Cysylltu â'r gofalwr sydd ar ddyletswydd drwy ddefnyddio'r *walkie talkie* yn y Dderbynfa, neu os nad yw'r gofalwr yn gweithio, rhif ffôn (ar gyfer aelod o staff penodedig) sydd wedi ei adael yn y dderbynfa.

22:00 – 08:00: Cysylltu â'r Gofalwr Nos sydd ar ddyletswydd drwy ddefnyddio'r *walkie talkie* yn y Dderbynfa, neu os nad yw'r gofalwr yn gweithio, rhif ffôn (ar gyfer aelod o staff penodedig) sydd wedi ei adael yn y dderbynfa.

Mewn argyfwng hefyd dylid ffonio 999 **yn syth**.

Cynghorir pob myfyriwr i ddiffodd 'data roaming' yn ystod eu arhosiad â'r Nant gan fod ffonau symudol yn gallu codi signal ffonau symudol o Iwerddon.